Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 1 Mai 2024 am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. Blackwell, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, Mrs D. L. King, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 84. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms S. Fleming, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons a gan Glerc y Dref, G. J. Nickels.

## 85. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb Rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1803 | BT | 500.59 | Galwadau ffôn a rhentu llinellau ffôn |
| | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 1804 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| 1807 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,426.53 | Cyflogau net ym mis Ebrill 2024 |
| 1805 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,084.38 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Mawrth 2024 |
| 1806 | Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,881.43 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Mawrth 2024 |
| 1808 | Cyngor Sir Ddinbych | 808.60 | Ardrethi Annomestig y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, Y Rhyl – taliad 1 o 10 |
| | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **17,741.51** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Hawliad Treth ar Werth Chwarter 4 2023/24 | 3,324.46 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.49 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.50 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Prasept 2024/25 – taliad 1 o 3 | 190,698.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **194,404.42** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 86. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017 ac yn unol â rheolau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb Rhif: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1814 | Maer Bae Colwyn | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 19 Ebrill 2024 | 20.00 |
| 1815 | CCLL Help Llaw i Wcráin | Dau docyn i noson godi arian swper cawl ar 18 Mehefin 2024 | 20.00 |
| 1816 | Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio'r goleuadau maint pys yn y Stryd Fawr | 2,184.00 |
| 1817 | Newton Newton Flag & Banner Makers Ltd | Baneri heddwch i'r Gerddi Coffa | 54.60 |
| 1818 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | 160.96 |
| 1819 | Cyng. C. L. Williams | Treuliau'r Dirprwy Faer – mis Mawrth 2024 | 36.20 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£2,475.76** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen a gwneud y taliadau wedi'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 87. CYFRIFON ARIANNOL 2023/24 – ALLDRO DARPARIAETHOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN 2023/24

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at yr adroddiad ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd i'r aelodau nodi a chymeradwyo'r isod:

- Yr amrywiadau allweddol a ragfynegwyd
- Y gwarged o £21,898 a ragfynegwyd (cyn gwneud trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn penodol) am y flwyddyn
- Y trosglwyddiadau o £7,000 i'r Gronfa Wrth Gefn Etholiadau a £5,000 i gronfa wrth gefn benodol newydd ar gyfer Regalia Dinesig
- Bod y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol wedi cynyddu fesul £9,898 i £209,555, sy'n cynrychioli 38% o'r praesept, i baratoi ar gyfer trosglwyddo unrhyw wasanaethau anstatudol gan Gyngor Sir Ddinbych yn ystod y misoedd nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *nodi a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 88. POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Ymhellach i gofnod rhif 150 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2018, cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am gymeradwyo Polisi Cronfeydd Wrth Gefn diwygiedig.

Cynghorodd y Dirprwy Glerc fod y polisi blaenorol yn cefnogi'r Cynllun Ariannol Pum Mlynedd 2018-2023, a'i fod wedi'i ymestyn i gwmpasu'r flwyddyn ariannol hon.

Adolygwyd y polisi a'i roi fel atodiad i'r adroddiad. Roedd yn adlewyrchu lefel uwch y Cronfeydd Wrth Gefn, fel y crybwyllwyd yn yr eitem flaenorol.

Y targed newydd a gymeradwywyd ar gyfer y pum mlynedd nesaf oedd lleihau lefel y Cronfeydd Wrth Gefn o 38% yn ôl i'r 33% sy'n ofynnol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r polisi newydd.*

## 89. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 90. YMESTYN YSWIRIANT 2024

Cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at yr adroddiad cyfrinachol ar y cyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am awdurdod i gymeradwyo estyniad i'r trefniadau yswiriant cyfredol a dyddiad adnewyddu blynyddol o 1 Tachwedd 2024.

Cynghorodd y Dirprwy Glerc fod Clerc y Dref wedi adrodd yn flaenorol fod y dyddiad adnewyddu ar 1 Mehefin yn achosi problemau o ran amserlen cymeradwyo, gan ei fod mor agos at Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn.

Roedd dau gwmni yswiriant y Cyngor Tref, Aviva a British Engineering Services Ltd, wedi cytuno ar y dyddiad newydd o 1 Tachwedd. Byddai hyn yn ymestyn y polisïau am bum mis.

Ychwanegodd y Dirprwy Glerc y byddai'r polisïau'n cael eu hadolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn wrth i broses adleoli'r Cyngor Tref ddigwydd a gan ystyried y goleuadau Nadolig hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo ymestyn y polisïau tan 31 Hydref eleni.*

## 91. CYTUNDEB CAMERÂU TELEDU CYLCH CYFYNG

Ymhellach i gofnod rhif 126 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024, cyfeiriodd y Dirprwy Glerc at yr adroddiad ar y cyd gan y Cynghorydd A. R. James (cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bwrdd Partneriaeth) a Chlerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynghorodd y Dirprwy Glerc, fel y cynghorwyd yn flaenorol gan Glerc y Dref, fod y Bwrdd Partneriaeth wedi gofyn i'r Cyngor Tref am gyfraniad blynyddol uwch, wedi newid o £15,000 i £30,698 ym mis Ebrill, a bod Clerc y Dref wedi ymateb

fod y gyllideb ar gyfer 2024/25 wedi'i phennu eisoes felly nid oedd hynny'n bosibl. Roedd Clerc y Dref wedi awgrymu cynnwys y cynnydd yn ystod cyfnod oes y cytundeb nesaf, ac roedd y Bwrdd wedi derbyn y dull hwn.

Er sicrwydd i'r aelodau, byddai cyfraniad y Cyngor Tref ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 yn parhau ar £15,000.

Ychwanegodd y Dirprwy Glerc fod adolygu'r camerâu wedi dechrau, gyda'r data defnydd yn cael ei gofnodi yn awr i alluogi gwneud cymariaethau ystyrlon, yn unol â chais aelodau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth yn ystyried dau dendr ar gyfer y cytundeb yn y dyfodol ar hyn o bryd.

Gofynnodd aelod am roi dyddiad ar y casglu data fel y gallai'r Cyngor Tref ystyried effeithiolrwydd pob uned.

***PENDERFYNWYD***

*(i) Cytuno ar y cytundeb diwygiedig, yn cynnwys cyfraniad ariannol newydd y Cyngor Tref y tu hwnt i 2025.*

*(ii) Awdurdodi'r Maer a Chlerc y Dref i lofnodi'r cytundeb.*

*(iii) Cynrychiolydd y Cyngor Tref i ofyn am ganlyniadau casglu'r data o bob camera, i'w rannu gyda'r Cyngor Tref ymhen chwe mis.*

## 92. CYFARFOD GWEITHGOR Y FYNWENT

Adorddodd y Cadeirydd, yn anffodus fod y ddau gynrychiolydd a benodwyd, y Maer a Chlerc y Dref, yn sâl ar ddiwrnod y cyfarfod, sef 30 Ebrilll 2024, ac felly ddim yn medru mynychu ar ran y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn cysylltu â Chyngor Tref Rhuddlan i holi pryd y bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf.*

## 93. COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cofnodioin cyfrinachol a ganlyn, er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 4 Mawrth 2024 | - | Cofnodion rhifau 27-36 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau | - | 18 Mawrth 2024 | - | Cofnodion rhifau 37-40 |
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 8 Ebrill 2024 | - | Cofnodion rhifau 31-37 |

***PENDERFYNWYD*** *nodi a chymeradwyo'r cofnodion.*

## 94. ADLEOLIAD ARFAETHEDIG Y CYNGOR TREF

Adroddodd y Dirprwy Glerc, mewn cyfrinachedd, fod y trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych yn bwrw ymlaen yn dda, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos, a bod lleoliad newydd wedi'i gynnig yn awr.

Roedd y negodwyr a benodwyd wedi ymweld â'r swyddfeydd arfaethedig ac roeddynt yn fodlon â'r maint a'r lleoliad yng nghanol y dref.

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r lleoliad newydd a chodwyd pwyntiau ynghylch brandio'r Cyngor Tref yn yr ystafell lle byddai cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol yn cael eu cynnal, a'r angen am fannau parcio wedi'u goleuo'n dda i fod ar gael i staff ac aelodau eu defnyddio wrth fynychu cyfarfodydd gyda'r nos, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n cymeradwyo'r lleoliad newydd arfaethedig ac awdurdodi'r negodwyr a'r Cynghorwyr A. R. James a Mrs D. L. King i barhau â'r trafodaethau i gael y deilliant gorau i'r Cyngor Tref.*

**95. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: …………………………

Dyddiad: ……………….…………